# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 16 Ebrill 2019 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 16 Ebrill 2019 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 26 Ebrill 2019 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Cyng. Dilwyn Morgan - Aelod Cabinet Plant a Pobl Ifanc

**PWNC**

Asesiad Digonolrwydd Chwarae

**PENDERFYNIAD –**

Derbyn yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae sydd wedi ei gwblhau gan Gyngor Gwynedd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, yn unol ag Adran 11 o'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodol

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd
Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodol

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cyng. Dilwyn Morgan<br>Aelod Cabinet Plant a Pobl Ifanc |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Asesiad Digonolrwydd Chwarae<br>Catrin Thomas<br>Uwch Reolwr Cefnogi Teulu |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 16 Ebrill 2019 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc :**

Asesiad Digonolrwydd Chwarae

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Derbyn yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae sydd wedi ei gwblhau gan Gyngor Gwynedd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, yn unol ag Adran 11 o'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae Adran 11 o'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn rhoi dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i asesu digonolrwydd cyfleon chwarae i blant.

Yn unol â "Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru)" a ddaeth i rym ym mis Tachwedd 2012 mae'n ofynnol i bob awdurdod cwblhau asesiad digonolrwydd bob tair blynedd, ynghyd a chynllun gweithredu blynyddol.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Cynhaliwyd ymgynghoriad i gefnogi'r asesiad rhwng Hydref –Rhagfyr 2018. Dosbarthwyd holiaduron i bob cyngor cymuned a thref; i ddarparwyr 'chwarae' o bob sector, ac i bartneriaid strategol eraill. Dosbarthwyd holiadur arall ar gyfer casglu barn plant, pobl ifanc a'u teuluoedd o gyfleon chwarae yn y sir. Yn ychwanegol i hyn casglwyd mewnbwn gan adrannau yn y cyngor ar faterion a

pholisïau penodol oedd yn ymwneud a chwarae megis cynllunio, addysg, priffyrdd a bwrdeistrefol.

Atodir isod Asesiad Digonolrwydd Chwarae 2019, ynghyd a chynllun gweithredu ar gyfer 2019-20.

Mae cyflwyno'r asesiad a'r cynllun gweithredu blynyddol yn sicrhau fod yr awdurdod yn cyfarch y dyletswydd statudol.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Swyddog Cyllid –

*"Rwy'n nodi'r gwaith a gyflawnwyd i gwrdd a'r gofyn hyn ac rwy'n nodi hefyd bod y mwyafrif o'r Cynllun Gweithredu yn dibynnol ar sicrhau adnoddau, yn bennaf amser staff."*

Swyddog Monitro –

*"Mae gofynnion manwl yn Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012 ynglyn a pharatoi asesiadau.*

*Mae'r broses a ddilynwyd i greu yr asesiad a'i fformat yn cyfarch y gofynnion yma."*

Aelod/au Lleol - *Mater i'r awdurdod yw'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae.*